# Sgiliau a dysgu

## Saesneg
## yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru

Mae’r ddogfen hon yn amlygu’r datganiadau neu’r adrannau hynny yn y rhaglenni astudio Saesneg lle ceir cysylltiad pendant â

- datblygu meddwl
- datblygu cyfathrebu
- datblygu TGCh
- datblygu rhif

a hybu

- Cwricwlwm Cymreig a Chymru, Ewrop a’r byd
- addysg bersonol a chymdeithasol
- gyrfaoedd a’r byd gwaith.

Mater i’r ysgolion benderfynu arno yw nifer a chyd-destun y cyfleoedd hyn, a hynny o fewn eu gorolwg/cynllun o’r cwricwlwm.

## Datblygu meddwl

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio.

Mewn Saesneg, bydd y dysgwyr yn archwilio, cynllunio, datblygu a myfyrio ar syniadau trwy leferydd, darllen ac ysgrifennu, gan ymateb i'w gwaith eu hunain yn ogystal â gwaith gan eraill. Byddant yn dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith; defnyddio iaith yn greadigol; defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu; defnyddio eu gwybodaeth am iaith i esbonio a rhagfynegi; disgrifio cysylltiadau a'r hyn sy'n debyg mewn iaith; adnabod patrymau a llunio rheolau; trafod dysgu iaith a gwerthuso eu llwyddiant.

Mewn Saesneg, mae cyfleoedd i ddatblygu meddwl ar draws yr adrannau Sgiliau ac Ystod yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.

## Datblygu cyfathrebu

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach.

Mewn Saesneg, bydd y dysgwyr yn cyfathrebu trwy siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill. Drwy wneud hynny, byddant yn dysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol i amryw o ddibenion a gyda gwahanol gynulleidfaoedd. Byddant yn delio ag iaith estynedig ac iaith sy'n fwyfwy cymhleth er mwyn datblygu fel defnyddwyr annibynnol a hyderus. Bydd eu sgiliau cyfathrebu mewn Cymraeg/Saesneg yn cynnal ac yn gwella datblygiad sgiliau mewn ieithoedd eraill.

Mewn Saesneg, mae cyfleoedd i ddatblygu cyfathrebu ar draws adrannau Sgiliau ac Ystod yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.

## Datblygu TGCh

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo’n briodol, i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn Saesneg, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh trwy gyfleu a rhannu gwybodaeth, a thrwy ddefnyddio technoleg i ymchwilio, datblygu a chyflwyno eu gwaith.

**Cyfnod Allweddol 2**

<u>Sgiliau</u>

*Darllen*

Dylid rhoi cyfleoedd i’r disgyblion:

6a. ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau priodol i adfer gwybodaeth, gan gynnwys TGCh, e.e. yr wyddor, mynegeion a chatalogau

6b. adfer a choladu gwybodaeth a syniadau o ystod o ffynonellau gan gynnwys deunyddiau mewn print, gweledol, clywedol, cyfryngol, TGCh a drama mewn perfformiad.

*Ysgrifennu*

Dylid rhoi cyfleoedd i’r disgyblion gyfathrebu’n ysgrifenedig ac i:

8. ddrafftio a gwella eu gwaith, gan ddefnyddio TGCh fel y bo’n briodol, i:
   - gynllunio
   - drafftio
   - adolygu
   - darllen proflenni
   - paratoi copi terfynol
9. cyflwyno gwaith ysgrifennu’n briodol:
   - defnyddio nodweddion priodol patrwm a chyflwyniad, gan gynnwys TGCh.

<u>Ystod</u>

*Llafaredd*

Dylid rhoi cyfleoedd i’r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar trwy:

5. ddefnyddio gwahanol ddulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh, e.e. dulliau drama, trafod a dadlau.

*Darllen*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwylio trwy:

3. brofi ac ymateb i ystod eang o destunau sy'n cynnwys:
   - gwybodaeth, testunau cyfeirio a thestunau anllenyddol eraill, gan gynnwys deunyddiau mewn print, deunyddiau cyfryngol, deunyddiau â delweddau symudol a deunyddiau yn seiliedig ar gyfrifiadur.

**Cyfnod Allweddol 3**

<u>Sgiliau</u>

*Darllen*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

6a. ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau priodol i adfer gwybodaeth, gan gynnwys TGCh, e.e. yr wyddor, mynegeion a chatalogau

6b. adfer, coladu a syntheseiddio gwybodaeth a syniadau o ffynonellau amrywiol gan gynnwys deunyddiau mewn print, gweledol, clywedol, cyfryngol, TGCh a drama mewn perfformiad.

*Ysgrifennu*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyfathrebu'n ysgrifenedig i:

8. ddrafftio, golygu a gwella eu gwaith, gan ddefnyddio TGCh fel y bo'n briodol, i:
   - gynllunio
   - drafftio
   - adolygu
   - darllen proflenni
   - paratoi copi terfynol
9. cyflwyno eu gwaith ysgrifennu yn briodol gan:
   - defnyddio nodweddion priodol patrwm a chyflwyniad, gan gynnwys TGCh.

<u>Ystod</u>

*Llafaredd*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar trwy:

5. ddefnyddio gwahanol ddulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh, e.e. dulliau drama, trafod a dadlau.

*Darllen*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwylio trwy:

3. brofi ac ymateb i ystod eang o destunau sy'n cynnwys:
   - gwybodaeth, testunau cyfeirio a thestunau anllenyddol eraill, gan gynnwys deunyddiau mewn print, deunyddiau cyfryngol, deunyddiau â delweddau symudol a deunyddiau yn seiliedig ar gyfrifiadur

**Cyfnod Allweddol 4**

<u>Sgiliau</u>

*Ysgrifennu*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyfathrebu'n ysgrifenedig i:

8. ddrafftio, golygu a gwella eu gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio TGCh fel y bo'n briodol
9. cyflwyno eu gwaith ysgrifennu yn y ffordd sy'n gweddu orau i'r dasg gan ddefnyddio nodweddion priodol patrwm a chyflwyniad, gan gynnwys TGCh.

<u>Ystod</u>

*Darllen*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwylio trwy:

3. brofi ac ymateb i ystod eang o destunau sy'n cynnwys:
   - deunyddiau cyfryngol, delweddau symudol a deunyddiau cyfrifiadol.

## Datblygu rhif

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau.

Mewn Saesneg, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif trwy weithgareddau sy'n cynnwys rhigymau rhif, rhoi digwyddiadau yn nhrefn amser, cywain gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys holiaduron; cyrchu, dewis, cofnodi a chyflwyno data mewn amrywiaeth o fformatau.

Mewn Saesneg, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at ddatblygu rhif.

# Y Cwricwlwm Cymreig (7–14) a Chymru, Ewrop a’r Byd (14–19)

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo’n briodol, i ddysgwyr 7-14 oed ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o’r byd cyfan.

Bydd Saesneg yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o’r hunaniaeth ddiwylliannol sy’n unigryw i Gymru. Byddant yn datblygu ymwybyddiaeth o’r dreftadaeth lenyddol ac ieithyddol trwy astudio testunau llenyddol, testunau anllenyddol, testunau cyfryngol a thestunau eraill, a thrwy weithgareddau sy’n archwilio materion sy’n berthnasol i fywyd yng Nghymru, ddoe a heddiw.

**Cyfnod Allweddol 2**

Ystod

*Llafaredd*

Dylid rhoi cyfleoedd i’r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar trwy:

7. ddangos mwy o hyder wrth ddefnyddio iaith trwy dynnu ar eu gwybodaeth o Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd eraill.

*Darllen*

Dylid rhoi cyfleoedd i’r disgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwylio trwy:

3. brofi ac ymateb i ystod eang o destunau sy’n cynnwys:
    - testunau sydd â dimensiwn Cymreig a thestunau o ddiwylliannau eraill.

**Cyfnod Allweddol 3**

Ystod

*Llafaredd*

Dylid rhoi cyfleoedd i’r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar trwy:

7. ddangos mwy o hyder wrth ddefnyddio iaith trwy dynnu ar eu gwybodaeth o Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd eraill.

*Darllen*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwylio trwy:

3. brofi ac ymateb i ystod eang o destunau sy'n cynnwys:
    - testunau sydd â dimensiwn Cymreig a thestunau o ddiwylliannau eraill.

**Cyfnod Allweddol 4**

Ystod

*Darllen*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwylio trwy:

3. brofi ac ymateb i ystod eang o destunau sy'n cynnwys:
    - testunau o Gymru, Ewrop a'r byd.

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; fod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Bydd Saesneg yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol y dysgwyr trwy ddarparu cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o ryngweithio cymdeithasol trwy gydweithio. Gall archwilio a myfyrio ar destunau sy'n ymdrin ag ystod o themâu hybu datblygiad hunanwybodaeth, aeddfedrwydd emosiynol ac empathi â'r cyflwr dynol.

**Cyfnod Allweddol 2**

*Llafaredd*

<u>Sgiliau</u>

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

2. nodi'r pwyntiau allweddol a dilyn syniadau trwy holi a chyflwyno sylwadau, gan ddatblygu ymateb i eraill er mwyn dysgu trwy eu llafar
4. datblygu eu hymwybyddiaeth o gonfensiynau cymdeithasol sgwrsio a thrafod.

<u>Ystod</u>

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar trwy:

3. gyfathrebu at amryw o ddibenion, e.e. cyflwyno gwybodaeth, mynegi barn, esbonio syniadau, holi, cyfleu teimladau, darbwyllo.

*Darllen*

<u>Ystod</u>

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwylio trwy:

4. ddarllen/gwylio darnau a thestunau cyflawn:
   - gyda thestun heriol sy'n ehangu persbectifau ac yn estyn sgiliau meddwl, e.e. materion amgylcheddol, cynaliadwyedd, hawliau anifeiliaid, bwyta'n iach.

**Cyfnod Allweddol 3**

*Llafaredd*

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

2. adnabod pwyntiau allweddol a dilyn syniadau trwy holi a chyflwyno sylwadau yn dreiddgar er mwyn hysbysu ac addasu safbwyntiau, syniadau a barn a dysgu trwy eu llafar
4. estyn eu dealltwriaeth o gonfensiynau cymdeithasol sgwrsio a thrafod.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar trwy:

3. gyfathrebu at amryw o ddibenion, e.e. dadlau, trafod, dadansoddi, cyflwyniad ffurfiol, archwilio ac ystyried syniadau mewn llenyddiaeth a'r cyfryngau.

*Darllen*

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwylio trwy:

4. ddarllen/gwylio darnau a thestunau cyflawn:
   - sy'n estyn dealltwriaeth ddeallusol, foesol ac emosiynol y disgyblion.

**Cyfnod Allweddol 4**

Ystod

*Llafaredd*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar trwy:

3. gyfathrebu at amryw o ddibenion.

*Darllen*

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwylio trwy:

4. ddarllen/gwylio testunau:
   - sy'n estyn eu dealltwriaeth ddeallusol, foesol ac emosiynol
   - sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas yr unfed ganrif ar hugain.

## Gyrfaoedd a’r byd gwaith

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo’n briodol, i ddysgwyr 11–19 oed datblygu eu hymwybyddiaeth o’r maes gyrfaoedd a’r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau’n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith.

Bydd Saesneg yn cyfrannu at ymwybyddiaeth y dysgwyr o yrfaoedd a’r byd gwaith drwy roi iddynt y sgiliau cyfathrebu, sef siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy’n eu galluogi i weithredu’n effeithiol ym myd gwaith ac yn y gymdeithas yn ei chrynswth.

Mewn Saesneg, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at yrfaoedd a’r byd gwaith.